# Polisi Gwaith Cartref

**Rhagair**

Nae'r polisi hwn yn cyflwyno canllawiau ar gyfer gosod, cwblhau ac ymateb i waith cartref yn Ysgol Llanbedrog. Gobeithir, trwy gydweithrediad rhieni, y bydd y gwaith cartref yn helpu i godi safonau addysgol a chyfoethogi'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn rhoi blas i rieni o'r gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn y dosbarth.

**Yr angen am waith cartref**

- Mae gwaith cartref yn fodd o sicrhau fod y plant yn meithrin hyder i weithio y tu allan i sefyllfa'r ystafell ddosbarth/ysgol.
- Yn aml atgyfnerthir y gwaith dosbarth gan y gwaith cartref.
- Mae'n gyfle i rieni gymryd rhan weithredol yn addysg y plant.
- Mae'n fodd o ehangu cwricwlwm y plant.

**Gosod gwaith cartref**

Bydd diwrnod gosod gwaith cartref yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth yn ôl barn yr athro a digwyddiadau'r wythnos. Gosodir y Gwaith cartref ar bapur neu ar-lein ar Google Classroom.

**Dychwelyd gwaith cartref**

Bydd diwrnod pendodl yn cael ei osod ar gyfer dychwelyd y gwaith cartref a disgwylir i bob plentyn gadw at y diwrnod hwn. Mae'r athrawon yn gofalu bod digon o amser yn cael ei roi i gwblhau'r gwaith. Os yw gwaith cartref yn hwyr disgwylir rheswm dilys am hyn.

**Ymateb i waith cartref**

Mae ymateb yr athrawon i waith cartref yn amrywio yn ôl y math o waith a osodir, e.e

- Prawf sillafu, tablau ayyb
- Marcio gwaith ysgrifenedig
- Trafodaeth ar y wybodaeth a gasglwyd

**Safon y gwaith cartref**

Dylai pob gwaith cartref fod yn adlewyrchiad o ymdrech gorau pob plentyn. Ni fydd gwaith blêr a brysiog yn cael ei dderbyn. Gall athro ofyn i blentyn ail-wneud y gwaith os nad yw'r safon yn dderbyniol.

**Rhieni**

Disgwylir i rieni roi cynhaliaeth i'r plant, a'u hannog i wneud y gwaith gorau posibl. Dylid sicrhau mai gwaith y plant sydd yn cael ei gyflawni ond mae'n bwysig fod rhieni yn eu cefnogi fel bo'r angen. Anogir rhieni i gysylltu â'r ysgol os oes unrhyw anhawsterau.

**Athrawon**

Bydd yr athrawon yn sicrhau bod y gwaith yn amrywiol, o fewn gallu'r plant ond eto'n ymestynnol ac yn ddiddorol.

**Dyddiad Cymeradwyo:** Tymor y Gwanwyn 2014
**Dyddiad Adolygu:** Tymor yr Hydref 2024 (Blynyddol)

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Alaw Ceris

**Dyddiad:** 23/10/23